

Mae'r balans o gelloedd ffafriol (effeithwyr celloedd T) a celloedd niweidiol (atalwyr celloedd T) o gelloedd heintrydd o fewn tiwmorau y colon yw y ffactor prognostig mwyaf grymus yn canser y colon. Mae effeithwyr celloedd-T yn fuddiol i hyrwyddo i gael gwared â a diraddio celloedd canser estron tra bod atalwyr celloedd-T yn cynnal hyfywdra tiwmorau trwy leihau ymateb heintrydd o gwmpas y tiwmor. Rydym ar hyn o bryd yn cyllido prosiectau sydd yn ymchwilio i gydadweithio deinamig sydd yn digwydd rhwng y ddau T gell pwysig yma mewn gwahanol adegau o'r haint. Mae canlyniadau yr astudiaethau yma wedi arwain at dreialon clinigol sydd yn edrych i adfer y balans heintrydd cywir mewn cleifion i wella effeithiolrwydd brechiad canser ar gyfer canser y colon. Dyma un o'r treialon cyflawn cyntaf sydd yn ymwneud â tiwmorau soled yng Nghymru ac edrychwn ymlaen i'r canlyniadau ymhen amser.



Cancer Research Wales Ymchwil Canser Cymru

caiff yr holl arian a gesglir ei wario yng Nghymru



mae ein hymchwil yn achub bywydau

Ymchwil Canser Cymru

Ysbyty Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2TL





Ffoniwch ni ar **029 2031 6976** neu

ewch i www.cancerresearchwales.co.uk






Canser y colon (hefyd yn cael ei adnabod fel cancer colorectal neu cancer y coluddyn) yw'r trydydd cancer mwya cyffredin ym Mhrydain ar ôl cancer yr ysgyfaint a'r fron. Yng Nghymru yn unig mae tua 1,200 y flwyddyn o achosion newydd yn cael eu canfod. Yn galonogol, mae'r graddfeydd o oroesi wedi gwella yn rheolaidd dros y ddau ddegawd olaf, yn bennaf oherwydd ymchwil. Mae Ymchwil Canser Cymru (YCC) yn cyllido nifer o brosiectau ymchwil sy'n torri tir newydd ar gyfer cancer y colon sydd yn edrych i:

-  Ddarganfod patrymau genynnau mewn cancer y colon sydd yn gallu gwella ymateb therapiwtig i gleifion sydd yn cael cemotherapi cyfredol a therapïau biolegol sydd dan ystyriaeth clinigol ar hyn o bryd.
-  Archwilio rôl bôn-gelloedd cancer y colon mewn datblygiad yr haint, ymwrthedd i driniaeth a lledu i rannau arall o'r corff (metastatis).
-  Benderfynu arwyddion tiwmorau moliciwlar newydd sydd â defnydd clinigol fel olion bio i ddarogan yr haint yn dychwelyd ac adwaith triniaeth mewn cleifion cancer y colon.
-  Ddeall sut mae y system heintrydd yn dylanwadu datblygiad tiwmor yn y colon ac i arwain y treialon brechu cyfredol mewn cancer clinigol yng nghanser colorectal.

Mae YCC yn falch o gefnogi prosiect ymchwil cydweithrediadol mewn sawl canolfan sydd a'i nôd i adnabod genynnau newydd neu patrymau genynnau sydd yn tueddbennu unigolion i cancer y colon ac yn effeithio ymateb i driniaeth. Bydd yr ymchwil arloesol yma â'r potensial i weithio gyda rhaglenni sgrinio cenedlaethol sydd yn digwydd ar hyn o bryd ar gyfer cancer y colon.

Hyd yma Prosiectau arall perthnasol sydd yn cael eu cyllido gan YCC yw i chwilio am genynnau ychwanegol sydd yn gallu darogan pa gleifion gyda cancer y colon fyddai yn adweithio i mathau newydd o gyffuriau o'r enw therapïau targedu moleciwlar. Y goblygiadau i'r gwaith yma yw y gellir trin cleifion cancer y colon gyda strategaethau therapiwtig sydd wedi'u teilwra ar gyfer cyfansoddiad genynnol unigolion. Bydd y ffordd bersonol yma yn caniatáu gwell targedu o'r cleifion a sbario rhai cleifion triniaethau sydd yn anaddas a diangen.



Mae grwpiau ymchwil ym Mangor yn edrych ar sut mae bôn-gelloedd cancer yn creu a hyrwyddo cynydd cancer y colon. Er bod y celloedd math embrionig yma yn llai na 1% cyfanswm mäs tiwmorau ystyrir bod nhw yn cynrychioli rhan hanfodol poblogaeth celloedd cancer ac yn allweddol i'r proses metastatig a nodweddion niweidiol arall. Y tueddiad yw bod bôn-gelloedd cancer yn wrthiannol i cemotherapi a radiotherapi a mae ganddynt y gallu i ail boblogi y tiwmor gwreiddiol yn dilyn triniaeth cychwynnol a, thrwy hynny, yn creu ailwaelu. Felly mae targedu llwyddianus o bôn-gelloedd cancer y colon yn rhoi y cyfle i gael gwared yn gyfan gwbl o weddill yr haint a'r potensial i wellhad.